Annwyl Cyfarwyddwr

**Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol**

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan weithgarwch gwerthuso perfformiad AGC yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Gweithgaredd ym mis Ebrill 2019 i adolygu cynnydd y Model Gartref yn Gyntaf
- Hunanwerthusiad y Gwasanaethau Oedolion
- Cyfarfod her y Gwasanaethau Plant

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7303
CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 11 Ebrill 2019.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae'r awdurdod lleol yn elwa ar dîm uwch-reolwyr profiadol. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus a chymwys sy'n cael ei gefnogi yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir. Mae cefnogaeth gorfforaethol gref i'r gwasanaethau cymdeithasol, ac mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth drylwyr a datblygedig o heriau presennol poblogaeth sy'n heneiddio ac effaith bosibl galw cynyddol ar y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae hyn wedi arwain at ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd y mae'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau, a'i arfer. Mae enghraifft gadarnhaol o feddwl yn fwy creadigol a rheoli galw'n fwy effeithiol yn cynnwys cyflwyno cyfarfodydd llif safle a gynhelir yn wythnosol i sicrhau bod cynlluniau ar y cyd ar waith i ryddhau cleifion yn ôl i'r gymuned. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal pobl.

Mae'r ymrwymiad i gadw pobl yn ddiogel yn ymestyn i gyfarwyddiaethau corfforaethol eraill hefyd sydd wedi datblygu dealltwriaeth well o'u dyletswyddau i weithio mewn partneriaeth yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae sgyrsiau gwahanol bellach yn mynd rhagddynt am y problemau y mae gofal cymdeithasol yn eu hwynebu, gydag arweinwyr diogelu corfforaethol ym mhob is-adran a hyfforddiant diogelu gorfodol ar draws yr awdurdod lleol.

Nodwn fod y Gwasanaethau Plant wedi bod yn mynd drwy broses o drawsnewid dan arweiniad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a benodwyd yn ddiweddar. Mae hyn yn sicrhau hyder bod arfer yn gwella llesiant plant a theuluoedd, gan sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir. Mae angen gwneud mwy o waith i adolygu'r gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal gyda'r nod hirdymor o gael gwell rheolaeth ac atal y llif o blant a theuluoedd y mae angen gwasanaethau statudol arnynt ac, yn y pen draw, yr angen iddynt dderbyn gofal.

Un o'r heriau yn y Gwasanaethau Plant yw'r cynnydd yn nifer y plant sy'n dod i dderbyn gofal. Mae'r adolygiad o gymorth ymyrryd yn gynnar ac atal i blant a'u teuluoedd ar ddechrau 2018 wedi arwain at ddatblygiadau cadarnhaol, gan ddod â nifer o adnoddau ynghyd i gefnogi teuluoedd sydd mewn perygl o chwalu, megis y Tîm Ymateb Cyflym sy'n ymrwymedig i ddarparu cymorth dwys i bobl ifanc a'u teuluoedd neu ofalwyr pan fydd argyfyngau er mwyn atal cydberthnasau rhag chwalu.

- Pobl – llais a rheolaeth

Mae'r awdurdod lleol wedi trawsnewid ei arfer yn y Gwasanaethau Oedolion, gan sicrhau bod timau ardaloedd yn canolbwyntio ar yr hyn sydd o bwys i bobl ac nid yw canlyniadau llesiant personol yn seiliedig ar gymhwysedd gwasanaeth yn unig mwyach. Rydym wedi

gweld bod cydberthnasau rhwng ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr lleol yn fwy cydweithredol bellach.

Rydym wedi gweld bod staff yn y timau yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses ailddylunio a'u bod yn teimlo y gallant ddod o hyd i atebion. O siarad â'r staff, gwelsom dystiolaeth fod y timau hyn yn datblygu gwydnwch ac annibyniaeth pobl gyda'r nod o sicrhau buddion yn yr hirdymor drwy drafod dulliau ataliol tymor hwy yn effeithiol â phobl yn hytrach na darparu gwasanaethau'n unig.

Mae cyfleoedd cynyddol i leisiau oedolion, plant a gofalwyr gael eu clywed wrth asesu eu hanghenion a chynllunio a chyflwyno gofal. Yn rhanbarthol, mae sefydlu panel dinasyddion yn dylanwadu ar waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyda chynllun peilot Llesiant Gogledd Torfaen yn nodi "pa wahaniaeth" y mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid wedi'i wneud drwy straeon a phrofiadau cleientiaid.

Er mwyn mynd i'r afael â heriau marchnad gofal cartref fregus, mae cydberthnasau gwaith agos yn cael eu meithrin â Choleg Gwent er mwyn hyrwyddo gwerth gweithio yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.

Mae'r awdurdod lleol wedi diweddaru ei gynllun gweithredu Mwy na Geiriau ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar ddeall gofynion Cymraeg defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Yn unol â'r Cynllun Ardal ar y Cyd, mae gwaith yn cael ei wneud i gydlynu gwasanaethau cyson yn y gymuned, megis Gofal yn Agosach i'r Cartref, lle mae cysylltwyr cymunedol yn gweithio gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau yn y gymuned gan hybu eu hyder a'u galluogi i fynd i weithgareddau, grwpiau a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol yn eu cymuned. Mae'r gallu i osgoi unigedd ac ynysu cymdeithasol wedi cael effaith uniongyrchol ar lesiant pobl. Mae angen i'r awdurdod lleol ddangos tystiolaeth o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ar gyfer unigolion er mwyn dangos yr effaith y mae gwasanaeth ataliol o'r fath yn ei chael ar ddargyfeirio pobl o wasanaethau statudol drwy adeiladu gwydnwch cymunedol.

Edrychodd ein gweithgaredd â ffocws ar y gwasanaeth Gartref yn Gyntaf yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall, a gwelsom ei fod wedi atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbytai'n ddiangen er mai am amser byr yn unig y mae'r tîm wedi bod ar waith. Mae staff y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth Gartref yn Gyntaf ac mae'n dangos gweithio integredig blaengar gan gyflawni canlyniadau da i bobl.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch

ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Mae arferion gweithio mewn partneriaeth da ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau sy'n gwbl integredig, o safon ac yn gynaliadwy i bobl. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae pob partner yn ei wneud.

Mae'n gadarnhaol nodi ymrwymiad yr awdurdod lleol i weithio mewn partneriaeth a'r ffordd y mae cyfleoedd i gydweithio â'r bwrdd iechyd lleol, cyrff cyhoeddus eraill ac asiantaethau darparu yn parhau i gael eu harchwilio er mwyn gwella llesiant pobl drwy gyfuno sgiliau ac adnoddau.

Mae angen i waith barhau rhwng y Gwasanaethau Oedolion a'r bwrdd iechyd er mwyn datblygu ffyrdd newydd o weithio tuag at nodau a rennir.

Bydd y cais llwyddiannus i'r Gronfa Trawsnewid ar ddechrau 2019 er mwyn datblygu gofal yn agosach i'r cartref a rhoi model gwydnwch cymunedol ar waith yn gofyn am ymrwymiad parhaus gan bartneriaid i weithio gyda'i gilydd yn weithredol ac yn strategol.

<u>Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20</u>

Bydd ein rhaglen arolygu wedi'i threfnu ar gyfer 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Mae'n debygol y bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cynnwys rhai cwestiynau dilynol i ganfyddiadau'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd wedi gadael gofal yn y gwasanaethau plant; bydd ein gwaith yn y gwasanaethau oedolion yn canolbwyntio ar bobl dros 65 oed yn y gymuned a gwasanaethau dydd o bosibl.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir

Sharon Eastlake
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn